Senedd Cymru
**Fforwm y Cadeiryddion**

# Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

## Ymgynghoriad

Mehefin 2025

Mae Fforwm y Cadeiryddion yn ceisio barn ar effeithiolrwydd pwyllgorau yn y Chweched Senedd er mwyn helpu i lywio strwythur pwyllgorau'r Seithfed Senedd.

# Cynnwys

**Cefndir** .......... **2**

**Pwyllgorau yn y Chweched Senedd** .......... **3**

Strwythur pwyllgorau .......... 3

Cylchoedd gwaith .......... 4

**Ystyriaethau ar gyfer pwyllgorau yn y dyfodol** .......... **5**

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad** .......... **7**

Diwylliant pwyllgorau .......... 7

Trefniadaeth busnes y pwyllgorau .......... 8

Rhyngweithio â phwyllgorau .......... 9

# Cefndir

**1.** Mae Fforwm y Cadeiryddion (“y Fforwm”) yn cynnwys holl Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd ac mae'n gyfrifol am sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y pwyllgorau, drwy gydgysylltu, arweinyddiaeth ar y cyd, a chyfnewid gwybodaeth. Mae’n darparu lle i fynd i'r afael â materion craffu trawsbynciol, rhannu arfer da, ac edrych yn fwy strategol ar waith pwyllgorau.

**2.** Mae'r Fforwm yn ystyried sut mae pwyllgorau wedi gweithredu yn ystod y Chweched Senedd ac unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i weithdrefnau ac arferion pwyllgorau ar gyfer y Seithfed Senedd er mwyn sicrhau bod y swyddogaeth graffu mor effeithiol â phosibl. Mae'r Fforwm yn awyddus i ystyried materion diwylliannol ehangach ynghylch gweithrediad pwyllgorau'r Senedd, yn ogystal â materion ymarferol fel maint a swyddogaeth.

**3.** Gwnaeth Pwyllgor Senedd y Dyfodol nifer o argymhellion i'r Fforwm ynghylch ystyriaethau ar gyfer pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, ac mae'r rhain wedi'u hystyried yn y cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

**4.** Mae rhagor o wybodaeth am waith y pwyllgorau yn y Chweched Senedd ac ystyriaethau ar gyfer strwythurau pwyllgorau yn y dyfodol wedi'i nodi ar y tudalennau

a ganlyn, ond mae'r Fforwm yn awyddus i glywed barn ar y meysydd a ganlyn yn benodol:

- Diwylliant pwyllgorau
- Trefniadaeth busnes y pwyllgorau
- Rhyngweithio â phwyllgorau'r Senedd

**5.** Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw casglu ystod o safbwyntiau, ac mae croeso ichi ateb rhai o’r cwestiynau, neu'r cwestiynau i gyd.

# Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

## Strwythur pwyllgorau

**6.** Ar hyn o bryd, mae 17 o bwyllgorau ar waith. Mae dau bwyllgor arall yn anweithredol ar hyn o bryd, yn ogystal ag un pwyllgor a ddiddymwyd yn 2022. Ystyrir Fforwm y Cadeiryddion yn bwyllgor anffurfiol.

**7.** Mae maint pob pwyllgor yn amrywio, rhwng 4 a 7 Aelod, fel y nodir yn Nhabl 1 isod.

**8.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi y dylai aelodaeth pob pwyllgor, gan gynnwys dyrannu Cadeiryddion, adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau'n perthyn iddynt (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol).

*Tabl 1*

| Pwyllgorau gweithredol | Aelodaeth |
|---|---|
| Y Pwyllgor Busnes | 4 |
| Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 6 |
| Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | 6 |
| Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog | 7 |
| Pwyllgor o’r Senedd Gyfan | 60 |
| Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | **6** |
| Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig | **6** |
| Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | **6** |
| Cyllid | **4** |

| Pwyllgorau gweithredol | Aelodaeth |
|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | **6** |
| Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad | **4** |
| Pwyllgor y Llywydd | **5** |
| Llywodraeth Leol a Thai | **6** |
| Deisebau | **5** |
| Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | **5** |
| Safonau Ymddygiad | **4** |
| Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru | **4 (+2 swydd wag)** |

| Pwyllgorau anweithredol | Aelodaeth |
|---|---|
| Y Pwyllgor Biliau Diwygio | 4 |
| Pwyllgor Senedd y Dyfodol | 5 (gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni) |

| Pwyllgorau wedi’u diddymu | Aelodaeth |
|---|---|
| Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd (2021-2022) | 5 |

## Cylchoedd gwaith

**9.** Wrth sefydlu a chynnig cylchoedd gwaith y pwyllgorau, rhaid i’r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y Llywodraeth a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau. Mae hynny'n cynnwys archwilio unrhyw wariant, cyllid, gweinyddiaeth a pholisi'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig.

**10.** Cynigir cylchoedd gwaith y rhan fwyaf o bwyllgorau polisi a deddfwriaeth trawsbynciol gan y Pwyllgor Busnes ac maent yn destun pleidlais yn y Senedd. Nid oes angen i gylchoedd gwaith o'r fath fod yn gyd-destunol â phortffolios gweinidogol, ac yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau wedi gweithredu gyda chyfrifoldebau polisi eang sydd weithiau'n cwmpasu mwy nag un portffolio gweinidogol. Fodd bynnag, mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod pwyllgorau penodol yn cael eu sefydlu gyda'r cyfrifoldeb i gyflawni swyddogaethau penodol. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys sefydlu:

- “Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus”, i ystyried materion sy’n ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- pwyllgor(au) sydd â goruchwyliaeth dros Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (megis Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Comisiwn Etholiadol), gan gynnwys eu cylchoedd cyllideb blynyddol;
- pwyllgor(au) sy'n ystyried ac yn adrodd ar y cynigion ar gyfer cyllido, neu ddefnyddio adnoddau a osodwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn, ac unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio arno (gan gynnwys craffu ar gyllideb ddrafft flynyddol Llywodraeth Cymru a'r trefniadau gweinyddol cysylltiedig);
- pwyllgor(au) sy'n ystyried materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 21;
- pwyllgor(au) sy'n ystyried cwynion a wneir iddo gan y Comisiynydd Safonau ac unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad yr Aelodau; yn ogystal â goruchwylio'r trefniadau ar gyfer casglu, cynnal a hygyrchedd gwybodaeth a gofrestrwyd ac a gofnodwyd o dan Reolau Sefydlog 2 – 5; a
- phwyllgor(au) sy'n ystyried deisebau cyhoeddus.

**11.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae’r Senedd wedi gweithredu system bwyllgorau sy’n cynnwys pwyllgorau craffu polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol.

**12.** Mae pwyllgorau’n gyfrifol am osod eu rhaglenni gwaith eu hunain a sut maent yn gweithio. Mae nifer o wahanol ddulliau o weithredu pwyllgorau, megis ymchwiliadau, ymweliadau, a digwyddiadau i randdeiliaid.

## Ystyriaethau ar gyfer pwyllgorau yn y dyfodol

**13.** Mae'r Fforwm yn ystyried sut mae'r system bwyllgorau wedi gweithredu dros gyfnod y Chweched Senedd ac mae'n awyddus i nodi beth sydd wedi gweithio'n dda, a beth y gellir ei wella, gyda'r nod o lywio penderfyniadau ynghylch sefydlu a gweithredu pwyllgorau yn y Seithfed Senedd. Cytunwyd y bydd yn edrych ar y canlynol:

*1. Diwylliant pwyllgorau:*

*Ystyried arferion sydd wedi gweithio'n dda a lle y gellir gwneud gwelliannau o ran pwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys tôn a deinameg y pwyllgorau, effeithiolrwydd argymhellion, a chysylltiadau â'r Llywodraeth;*

*Profiadau o ryngweithio â phwyllgorau gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, materion fel monitro amrywiaeth a rhyngweithio yn newis iaith pobl.*

*2. Trefniadaeth busnes y pwyllgorau:*

*(i) Archwilio manteision system bresennol y Senedd (defnyddio pwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol) o gymharu â system sy'n defnyddio pwyllgorau craffu ar bolisi a phwyllgorau Biliau cyhoeddus ar wahân; a manteision system sy'n gysylltiedig â threfniadaeth y Llywodraeth o ran cyfrifoldebau'r Gweinidogion;*

*(ii) Amserlennu pwyllgorau mewn perthynas â busnes arall y Senedd; a*

*(iii) Maint a chyfansoddiad pwyllgorau.*

*3. Rhyngweithio â phwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys:*

*(i) Gweithio hybrid;*

*(ii) Briffiau ymchwil; a*

*(iii) Cymorth Cymraeg.*

**14.** Mae'r rhain yn cysylltu ag argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol yn ei adroddiad 'Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd'[1], i Fforwm y Cadeiryddion ei ystyried fel rhan o'i waith yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried comisiynu gwaith i gofnodi a chyfleu diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd, ystyried defnyddioldeb portffolios pwyllgorau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau Gweinidogol, a chasglu gwybodaeth am effaith maint cynyddol y Senedd ar ganlyniadau craffu. **Mae'r prif argymhellion yw:**

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd, yn ystyried y ffordd orau o sefydlu trefniadau i ddeall yr effaith y mae'r cynnydd ym maint y Senedd yn ei chael ar yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio'n paratoi ar gyfer gwaith pwyllgor, ac a yw hyn yn arwain at ganlyniadau craffu gwell.

[1] **Adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol: Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd**

**Argymhelliad 6:** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes, yn ailedrych ar argymhelliad 1.1 yn adroddiad yr Athro Stirbu i benderfynu a fyddai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn elwa o waith i:

- archwilio a oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth mewn canlyniadau a gyflawnir gan system bwyllgorau sy'n defnyddio pwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol yn bennaf (e.e. Senedd yr Alban, y Senedd, a rhai deddfwrfeydd Ewropeaidd) o gymharu â system sy'n defnyddio pwyllgorau craffu ar bolisi a phwyllgorau Bil cyhoeddus ad hoc ar wahân (e.e. Tŷ'r Cyffredin, deddfwrfeydd y Gymanwlad); a/neu

- archwilio a oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth mewn canlyniadau o system bwyllgorau sy'n gysylltiedig â threfniadaeth y llywodraeth o gyfrifoldebau Gweinidogol (e.e. Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin), o'i gymharu â system bwyllgorau nad yw (e.e. y Senedd).

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd, yn ystyried comisiynu gwaith i gofnodi a chyfleu diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd, gyda'r bwriad o nodi'r normau ac arferion anffurfiol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan Aelodau, a'r rhai nad ydynt, er mwyn cynorthwyo i gadw normau ac arferion cadarnhaol rhwng Seneddau, a llywio prosesau cynefino.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**15.** Byddai'r Fforwm yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau yn y meysydd a ganlyn.

## Diwylliant pwyllgorau

**16.** Fel y nodir ym mharagraffau 9 a 10, mae gan bwyllgorau ystod eang o gyfrifoldebau ar hyn o bryd, gan gynnwys ystyried polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, a deisebau a gyflwynir gan y cyhoedd. Mater i'r pwyllgorau yw penderfynu ar eu rhaglenni gwaith eu hunain, ac eithrio deddfwriaeth a ddyrennir gan y Pwyllgor Busnes i bwyllgorau gydag amserlen benodol ar gyfer pob cyfnod o'r broses ddeddfwriaethol. Fel arfer, mae pwyllgorau'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ei archwiliad o feysydd polisi.

> Hoffai'r Fforwm wybod eich barn ar sut y mae pwyllgorau'n neilltuo eu hamser e.e. deddfwriaeth, ymchwiliadau polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystyried deisebau, a lefel y ffocws strategol a'r gwerthusiad mewn pwyllgorau.

**17.** Mae pob pwyllgor yn penderfynu ar ei ddull ei hun o weithio, gyda chyfarwyddyd y Cadeirydd.

Hoffai'r Fforwm wybod a oes gennych farn ar dôn a deinameg cyfarfodydd y pwyllgorau ac ar rôl y Cadeirydd.

## Trefniadaeth busnes y pwyllgorau

**18.** Mae'r Senedd wedi gweithredu pwyllgorau polisi a deddfwriaeth ar y cyd ers y Pedwerydd Cynulliad. Mae hyn yn caniatáu i’r Aelodau ddatblygu arbenigedd polisi sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth, fodd bynnag, gall gael effaith ar lefelau'r gwaith y gall pwyllgor ei wneud heblaw craffu deddfwriaethol – yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn y portffolio ym mhob tymor seneddol.

**19.** Mae portffolios pwyllgorau'r Senedd yn drawsbynciol, sy'n golygu nad ydynt yn adlewyrchu portffolios Gweinidogol ond yn hytrach yn cwmpasu ystod o bynciau. Mae hyn yn caniatáu cysylltiadau rhwng meysydd polisi a chraffu ar waith Gweinidogion ar feysydd penodol yn hytrach na phortffolios. Mae hefyd yn golygu bod strwythur y pwyllgor yn parhau'n gyson os bydd ad-drefnu Gweinidogion. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn golygu bod rhai pwyllgorau'n craffu ar waith nifer o Weinidogion ac y gallant weld materion yn syrthio rhwng cylchoedd gwaith pwyllgorau. Mae rhai pryderon hefyd wedi’u codi yn y Senedd hon ynghylch craffu ar y meysydd portffolio sydd yng nghyfrifoldeb uniongyrchol y Prif Weinidog.

Byddai'r Fforwm yn croesawu barn ar effeithiolrwydd polisi a gwaith craffu ar ddeddfwriaeth sy'n cael eu harwain gan un pwyllgor, ac a ddylai cylchoedd gwaith pwyllgorau fod yn drawsbynciol neu adlewyrchu portffolios Gweinidogol.

**20.** Gwelodd y Chweched Senedd rai pwyllgorau yn cael eu sefydlu â llai o aelodau nag yn y Seneddau blaenorol, gyda mwy o bwyllgorau pedwar a phump Aelod yn cael eu sefydlu ar ddechrau'r Senedd, er bod y rhan fwyaf o'r pwyllgorau wedi'u penodi gyda chwe Aelod. Arhosodd cworwm y pwyllgorau yn dri Aelod, polisi y mae'r Fforwm wedi'i adolygu'n ddiweddar ac yn ei gefnogi wrth symud i'r Senedd nesaf.

**21.** Mae Comisiwn y Senedd wedi cytuno i gynnal archwiliad seneddol sy'n sensitif i rywedd cyn diwedd y Chweched Senedd. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddylanwad rhywedd ar benderfyniadau seneddol y Senedd.

Byddai'r Fforwm yn croesawu barn ar sut mae pwyllgorau wedi'u cyfansoddi, megis maint y pwyllgorau, yr aelodaeth, a'r ffordd y mae Cadeiryddion ac aelodau’r pwyllgorau yn cael eu dyrannu.

## Rhyngweithio â phwyllgorau

**22.** Mae pwyllgorau’n gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid ac yn mabwysiadu nifer o ddulliau gwahanol o ran gwaith pwyllgorau, gan gynnwys sesiynau tystiolaeth, digwyddiadau i randdeiliaid ac ymgyngoriadau.

**23.** Mae'r Senedd yn ceisio bod yn sefydliad agored a chroesawgar sy'n galluogi ystod eang o bobl i ryngweithio ag ef. Yn ystod y Chweched Senedd, mae pwyllgorau wedi monitro amrywiaeth y tystion ac wedi ystyried ffyrdd y gall pobl ryngweithio'n rhydd yn eu dewis iaith.

Hoffai'r Fforwm glywed barn ar eich profiadau o fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a rhyngweithio â hwy, gan gynnwys materion fel gweithio mewn ffordd hybrid a'r gallu i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd yn eich dewis iaith.

Byddai'r Fforwm hefyd yn croesawu enghreifftiau o waith craffu neu waith arall pwyllgorau yr ydych yn ystyried ei fod wedi bod yn effeithiol neu nad oedd mor effeithiol ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer sut y gellid gwella effeithiolrwydd.